# Gwerthuso, adolygu ac addasu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer ceffylau perfformio

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gwerthuso, adolygu ac addasu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer ceffylau perfformio. Mae ar gyfer y rheiny sydd yn gysylltiedig â rheoli hyfforddiant ceffylau perfformio.

Mae hyn yn cynnwys arsylwi ymateb y ceffyl a chael adborth am berfformiad y ceffyl, dadansoddi effeithiolrwydd y rhaglen hyfforddi ac addasu'r rhaglen hyfforddi, yn dibynnu ar ymateb y ceffyl.

Bydd angen eich bod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.
Bydd angen i chi sicrhau eich diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffylau, yr holl amser.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwerthuso ac adolygu'r rhaglen hyfforddiant yn rheolaidd yn erbyn yr amcanion cytûn ac anghenion hyfforddiant y ceffyl perfformio
2. cael adborth ar ymateb y ceffyl i hyfforddiant gan bersonél perthnasol
3. dadansoddi'r wybodaeth a chofnodi'r canlyniadau
4. asesu gallu athletig y ceffyl a phenderfynu ar strategaeth yr ymgyrch cystadleuol
5. addasu'r rhaglen hyfforddi i fodloni'r amcanion a adolygwyd
6. trafod y gwerthusiad a'r addasiadau gyda phersonél perthnasol
7. sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw a'u storio yn unol â gofynion deddfwriaeth berthnasol a'r sefydliad yr ydych yn gweithio iddo
8. asesu peryglon a rheoli'r perygl i geffylau, i chi eich hun ac eraill mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. yr effeithiau seicolegol a chorfforol y gallai hyfforddiant eu cael ar y ceffyl
2. sut i adnabod problemau ffisiolegol a seicolegol mewn ceffylau a sut i ymdrin â'r rhain
3. effeithiau tymhorol ac amgylcheddol ar weithgareddau penodol
4. y rhesymau dros brofion gwaed a phwyso a'r dehongliad o'r canlyniadau
5. pwysigrwydd bod yn ymwybodol o sylweddau sydd wedi eu gwahardd
6. gwerth gwerthuso rheolaidd a sut y gall hyn wella ansawdd yr hyfforddiant y mae'r ceffyl yn ei gael
7. pam y mae'n bwysig cytuno ar addasiadau i raglenni hyfforddiant yn y dyfodol gyda'r holl bersonél perthnasol
8. sut i werthuso ac adolygu'r rhaglen hyfforddiant yn erbyn yr amcanion
9. sut i sefydlu a chadw cofnodion perfformiad cywir ar gyfer ceffylau unigol
10. sut i asesu cyflwr a ffitrwydd ceffylau perfformio
11. yr adnoddau sydd eu hangen i hyfforddi ceffylau i'r ffitrwydd uchaf posibl
12. y ffactorau all ofyn am adolygu perfformiad posibl
13. manteision ac anfanteision dulliau hyfforddi a chymhorthion gwahanol
14. lles ceffyl ar ddiwedd ei yrfa
15. pwysigrwydd sefydlu a chadw cofnodion
16. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut caiff y rhain eu rheoli
17. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Gwerthuso ac adolygu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer y mathau canlynol o geffyl:

- profiadol
- amhrofiadol
- ddim yn ffit
- ffit

LANEq410

Gwerthuso, adolygu ac addasu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer ceffylau perfformio

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq410 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwr Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; rheolaeth; hyfforddiant |